Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Goblygiadau pontio o'r Undeb Ewropeaidd i sectorau allweddol o economi Cymru

**Craig Johnson, Jack Price a Helen Tilley**
Rhagfyr 2020

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru'n helpu i wella'r broses o lunio polisi a gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfeirio gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus at dystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi i gyfuno a chyflwyno'r dystiolaeth bresennol a chanfod unrhyw fylchau lle mae angen gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol i lywodraeth ond yn gweithio'n agos â llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd am sut i ateb heriau strategol mewn iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau eraill sydd wedi eu datganoli. Mae'n:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i adnabod, casglu a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a allai helpu i oleuo a gwella polisi;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i ganfod, cynhyrchu, gwerthuso a chymhwyso tystiolaeth am beth sy'n gweithio i heriau economaidd a chymdeithasol; a
- Defnyddio ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth oleuo a gwella llunio polisi a gwasanaethau cyhoeddus, a chyfrannu at theorïau ar lunio a gweithredu polisi.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymhlith ymchwilwyr i gyfrannu at ymchwil polisi perthnasol sy'n cael effaith ar y ddaear.

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan yn https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/goblygiadau-brexit-i-amaethyddiaeth-ardaloedd-gwledig-ar-defnydd-o-dir-yng-nghymru/

## Cyllidwyr Craidd

Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** yn 1883. Mae'r brifysgol, sydd wedi ei lleoli mewn prifddinas ffyniannus, yn uchelgeisiol ac arloesol a'i bryd ar adeiladu perthnasoedd rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru ar yr un pryd.

Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU, corff newydd sy'n dod â saith cyngor ymchwil y DU at ei gilydd ynghyd ag Innovate UK a Research England i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau fel bod ymchwil ac arloesi'n gallu ffynnu.

**Llywodraeth Cymru** yw'r llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru ac yn gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus fel iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

# Cynnwys


**Crynodeb** 4

**Rhagarweiniad** 5

**Y Cyd-destun** 5

Rhwystrau di-doll 6

Marchnad fewnol y DU 7

Parodrwydd a phandemig y coronafeirws 9

**Sectorau allweddol** 10

Awyrofod 11

Amaethyddiaeth a bwyd 13

Modurol 15

Lled-ddargludyddion cyfansawdd 17

Seiber-ddiogelwch 18

Nwyddau a gwasanaethau digidol a chreadigol 19

Gwasanaethau ariannol, eiddo a busnes 21

Gwyddorau bywyd 22

Dur 23

Twristiaeth 25

**Casgliadau ac argymhellion** 26

**Cyfeiriadau dogfennol** 30

Cydnabyddiaeth 34

Manylion yr awduron 34

# Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau adolygiad o dystiolaeth gan ddadansoddi goblygiadau pontio o'r Undeb Ewropeaidd i brif sectorau masnachu economi Cymru.
- Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw sicrhau cytundeb masnachu sy'n lleihau rhwystrau. Fodd bynnag, heb os bydd masnachu rhwng yr UE a Chymru'n dod yn fwy beichus.
- Disgwylir i rwystrau di-doll gael effaith sylweddol. Bydd y rhain yn fwy o broblem i fusnesau sy'n cynhyrchu cynnyrch ffres neu nwyddau sy'n cynnwys gwahanol gydrannau.
- Mae llai o fuddsoddi'n bryder i'r rhan fwyaf o sectorau, ac yn enwedig i'r rhai sy'n cynnwys busnesau bach a chanolig yn bennaf ac sydd wedi elwa o gyllid gan yr UE yn y gorffennol, fel amaeth a thwristiaeth.
- Mae cytundebau gyda gwledydd y tu allan i'r UE yn cynnig rhai cyfleoedd. Er enghraifft, byddai mynediad haws i farchnad yr UDA yn dod â chyfleoedd i gwmnïau Cymru, ynghyd â'r bygythiadau hysbys.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi galw'n barhaus am fframweithiau cyffredin ar draws y DU i reoli'r gwahaniaethau rheoliadol posib rhwng y pedair gwlad sydd bellach wedi derbyn sail statudol ym Mesur Marchnad Fewnol y DU. Byddai gweithredu'r fframweithiau hyn yn bwysig i ddatganoli.
- Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru:
    - Yn rhoi arweiniad i fusnesau ar sut i ddilyn y rheoliadau newydd.
    - Yn annog ailsgilio a chyflogaeth mewn cyrff cyfryngu tollau, seilwaith digidol a chymorth busnes a logistaidd er mwyn cwrdd â'r cynnydd yn y galw.
    - Yn parhau i geisio sefydlu fframwaith cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer cymwysterau a gweithdrefnau asesu cydymffurfio – fel rhan o unrhyw FTA.
    - Yn cadw cyllid argyfwng ar gyfer sectorau y bydd yr oedi wrth ffiniau'n effeithio arnynt.
    - Yn mapio'r llif masnach a sut y bydd hyn yn newid o ganlyniad i brotocol Gogledd Iwerddon.
    - Yn annog cydweithrediad rhwng sectorau gyda buddiannau cysylltiol, fel amaeth a thwristiaeth.
    - Yn annog buddsoddi mewn ymchwil a datblygu i gynorthwyo sectorau sy'n dibynnu ar arloesi.

# Rhagarweiniad

Yr Undeb Ewropeaidd (UE) yw'r partner masnach mwyaf gwerthfawr yn economaidd sydd gan Gymru a'r DU gan gyfrif am 43% o holl allforion a 52% o holl fewnforion y DU yn 2019 (ONS, 2020). Yn dilyn gadael yr UE, mae Llywodraeth y DU wedi dechrau negodi cytundebau masnach rydd gyda'r UE a gwledydd eraill o gwmpas y byd, gan gynnwys gydag UDA, Awstralia, Japan a Seland Newydd.

Bydd y trafodaethau negodi hyn a'u canlyniadau'n cael effaith ddofn ar economi Cymru, yn gyffredinol ac i sectorau allweddol unigol. Mae'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd yn awyddus i ddeall sut y bydd prif sectorau economi Cymru'n debygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau a sut y dylai hyn oleuo trafodaethau Llywodraeth Cymru gyda Llywodraeth y DU. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno tystiolaeth o adolygiad llenyddiaeth, cyfweliadau â chyrff sector a chymdeithasau ledled Cymru, ynghyd â thrafodaeth bwrdd crwn ag arbenigwyr.

Mae'r testun yn adlewyrchu'r sefyllfa fel yr oedd pan gyhoeddwyd yr adroddiad hwn, o ran y cyfeiriadau at ddeddfwriaeth allweddol, Protocol Gogledd Iwerddon a'r cytundeb masnach rhwng y DU a'r UE. Fodd bynnag, cafodd y cyfweliadau eu cynnal â'r sectorau allweddol rhwng Awst a Hydref 2020 ac felly nid ydynt yn adlewyrchu unrhyw ddatblygiadau ers hynny.

# Y Cyd-destun

Mae'r DU yn negodi ei chytundebau masnach rydd ei hun am y tro cyntaf mewn 50 mlynedd. Mae cytundebau masnach cyfoes yn debyg i rai blaenorol ond mae natur fwy byd-eang ein cynhyrchwyr, cyflenwyr a defnyddwyr y dyddiau hyn yn golygu bod rhwystrau rheoliadol, hyder a sicrwydd yr un mor bwysig os nad yn bwysicach na thollau.

Mae Llywodraeth Cymru (2019a) wedi datgan mai ei phrif flaenoriaeth yw bod Llywodraeth y DU yn negodi cytundeb masnach rydd cynhwysfawr â'r UE sydd yn ddi-doll ac yn lleihau'r rhwystrau i fasnachu. Mae hefyd o blaid ymdrechion i negodi cytundebau masnach rydd â gwledydd eraill. Fodd bynnag, mae'n poeni y gallent lastwreiddio safonau amgylcheddol a llafur gan ddadlau na fydd y cytundebau hyn yn ddigon i ddigolledu economi Cymru am y colledion masnach o ganlyniad i adael yr UE. Mae Llywodraeth Cymru (2020) wedi egluro, mewn gohebiaeth i Lywodraeth y DU, bod angen lleihau unrhyw wahaniaeth safonau rhwng y DU a'r UE.

Ers canlyniad y refferendwm yn 2016, mae Llywodraeth y DU wedi wynebu colli mynediad i'r farchnad sengl neu dderbyn cyfyngiadau rheoliadol. Mae Owen, Stojanovic a Rutter (2017: 47) yn dadlau y bydd angen i'r DU, yn y pen draw, wneud 'dewis sylfaenol' rhwng aros mor agos â phosib at fodel rheoliadol yr UE neu ddewis polisi masnach annibynnol sy'n rhoi mwy o ryddid i'r DU ond gan golli mynediad at farchnad yr UE ar delerau ffafriol. Drwy gydol y trafodaethau negodi, mae Llywodraeth Cymru wedi ffafrio'r model blaenorol ond mae Llywodraeth y DU wedi newid o fodel cysoni at fodel anghysoni dros amser. Beth bynnag yw'r canlyniad yn y pen draw, mae'n glir y bydd masnachu rhwng yr UE a Chymru, Lloegr a'r Alban yn dod yn fwy beichus. Mae protocol y cytundeb ymadael ar gyfer Gogledd Iwerddon yn golygu y bydd Gogledd Iwerddon yn elwa o berthynas fasnachu agosach â'r UE na Phrydain er y gallai hefyd greu rhwystrau newydd ar gyfer mewnforion i Ogledd Iwerddon o weddill y DU yn y tymor hirach.

> **Mae'r ffaith bod y DU eisiau rheolaeth lawn dros reoleiddio domestig a pholisi masnach yn cyfyngu'n sylweddol ar y berthynas bosib rhwng yr UE a'r DU. Ar y gorau, mae'r DU a'r UE ar lwybr i lunio cytundeb masnach rydd sy'n gwneud i ffwrdd â'r holl dollau a chwotâu ond yn creu rhwystrau gweinyddol a rheoliadol newydd sylweddol i fasnachu mewn nwyddau a gwasanaethau** (Lowe, 2020: 1)**.**

Er bod llawer o'r ffocws yn y trafodaethau deddfwriaethol ac yn y cyfryngau wedi bod ar ganlyniadau'r trafodaethau negodi i'r DU yn gyffredinol, rhai o'r prif bryderon i Gymru yw'r goblygiadau i economi Cymru a'i sectorau allweddol. Mae'n anodd iawn modelu effeithiau cytundebau masnach rydd; ac mae darogan gwahanol ganlyniadau unrhyw gytundeb rhwng y DU / UE yn dibynnu ar natur y cytundeb hwnnw. Mae'r ymarferion modelu presennol a wnaed gan Lywodraeth y DU (2020) yn awgrymu y bydd enillion ymylol mewn GVA o gytundebau masnachol â gwledydd y tu allan i'r DU, er y dylid cofio mai dangosol yw'r ffigurau hyn a bod yn eithaf pwyllog wrth feddwl dibynnu arnynt. [1] Mae'r gwaith modelu a wnaed gan Grant Thornton (2020) i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn amcangyfrif y gallai fod 6% yn llai o allforion blynyddol mewn senario gyda chytundeb masnachu, a 19% yn llai o allforion blynyddol heb gytundeb masnachu.

## Rhwystrau di-doll

Os llwyddir i negodi cytundebau masnach rydd (FTA), bydd llawer o'r effeithiau'n cael eu teimlo ar ffurf dim tollau, yn enwedig wrth fasnachu â'r UE. Er enghraifft, gallai fod

[1] Mae gwaith modelu gan Lywodraeth y DU yn awgrymu cynnydd o'i gymharu â 2018 o 0.05%-0.40% mewn GVA yng Nghymru o ganlyniad i gytundeb masnachu rhwng y DU a'r Unol Daleithiau, cynnydd o 0.05%-0.15% yn dilyn cytundeb rhwng y DU a Japan, a chynnydd o 0.00%-0.05% yn sgîl cytundeb rhwng y DU a Seland Newydd.

cytundebau ar faterion fel fframweithiau cyffredin, trefniadau rheolau tarddiad, a gorfodi cyfyngiadau. Gallai cytundeb hefyd hwyluso cydweithrediad er mwyn osgoi rhwystrau i fasnachu, fel oedi wrth ffiniau, gwahaniaeth rhwng safonau cynhyrchion, a threfniadau tollau. Gallai hefyd wneud cynnydd yn haws ar faterion fel cydnabyddiaeth gilyddol o gymwysterau a gweithdrefnau asesu cydymffurfio. Ond efallai'n anad dim, hyd yn oed pe na bai'r cytundeb masnachu'n ddigon cynhwysfawr ar ei ben ei hun, byddai'n hwyluso trafodaethau negodi haws ar y berthynas o 2021 ymlaen ac yn osgoi rhai tollau penodol; byddai hefyd yn annog cydweithrediad a darparu llwyfan ar gyfer gweithredu protocol Gogledd Iwerddon yn gynaliadwy (Lowe, 2020b).

I gymhwyso am allforion di-doll, rhaid i allforwyr ddangos bod eu cynnyrch yn cwrdd â meini prawf y cytundeb masnachu ar reolau tarddiad. Nid yw'r her benodol a fyddai'n dod gyda'r rheolau tarddiad wedi cael ei hateb yn iawn eto, ac nid yw eto'n cael lle digon blaenllaw gan bob sector er eu potensial o ran effaith. Bydd yn effeithio'n arbennig ar sectorau gyda chadwyni cyflenwi hir a rhai sy'n dibynnu ar fewnforio cydrannau o werth uchel. Yn achos cadwyni cyflenwi hir, gall fod yn anodd dangos tarddiad yr holl gydrannau, er bod hyn yn llai tebygol o fod yn broblem i nwyddau sy'n tarddu dim ond yn y DU neu'r UE os bydd y cytundeb masnachu'n caniatáu 'tarddiad cronnol dwyochrog'. Daw'n fwy o broblem lle mae nifer o gyflenwyr o'r tu allan i'r DU, er enghraifft yn y diwydiant modurol lle mae cerbydau'n cynnwys nifer o wahanol gydrannau o'r farchnad fyd-eang. Lle mae cydrannau o werth uchel yn cael eu mewnforio, mae'n broblem benodol. Er enghraifft gyda'r batris mewn cerbyd trydan sy'n gallu bod dros draean o'i werth terfynol. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi nifer o gynigion gerbron ond nid oes cytundeb ar yr un ohonynt eto.

Mae llawer o faterion eraill hefyd yn parhau'n aneglur, gan gynnwys ardystio a labelu cynhyrchion, storio a digonolrwydd data, a'r rhyddid i symud o gwmpas dros dro ar gyfer gwaith. Mae'n aneglur i ba raddau fydd y rheolau a'r rheoliadau newydd fel gwiriadau tollau ac ardystio ynghyd â'r gwiriadau cydymffurfio a gweinyddol ychwanegol ar gyfer safonau a rheolau tarddiad newydd, yn cael eu gorfodi'n llym. Ar ddiwrnod cyntaf y system newydd, bydd llawer o fusnesau efallai'n torri'r rheolau'n anfwriadol heb wybod beth yn union yw'r gofynion newydd. Fodd bynnag gallai fod cyfnod o addasu i'r rheolau, yn rhannol i roi cyfle i fusnesau roi prosesau yn eu lle a hefyd oherwydd y capasiti cyfyngedig o ran gorfodaeth.

## Marchnad fewnol y DU

Pryder arall i Lywodraeth Cymru yw effaith gadael yr UE ar farchnad fewnol y DU. Ar ddiwedd y cyfnod pontio, ni fydd y DU a'r gwledydd datganoledig – heblaw Gogledd Iwerddon – wedi eu rhwymo gan gyfraith yr UE mwyach a bydd rhyddid ganddynt i newid y meysydd polisi y mae ganddynt reolaeth drostynt, fel rheoliadau amgylcheddol a datblygu economaidd. Y pryder yw y gallai hyn greu rhwystrau masnach rhwng gwledydd y DU. Noda ymchwil gan Lydgate et al (2019) y gallai cytundebau masnach â gwledydd eraill greu

rhwystrau masnach rhwng y gwledydd datganoledig os ydynt yn effeithio ar ddeddfwriaeth mewn meysydd sensitif, gan gynnwys diogelwch bwyd a phrisiau cyffuriau.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Mesur y Farchnad Fewnol i Senedd y DU. Roedd y Mesur a gynigiwyd yn wreiddiol yn seiliedig ar yr egwyddorion o ddim gwahaniaethu a chydnabyddiaeth gilyddol awtomatig, heb unrhyw warantu ymrwymol ar gyfer safonau gofynnol. Mae cydnabyddiaeth gilyddol yn golygu y byddai nwyddau wedi eu cynhyrchu neu fewnforio i un rhan o'r DU yn cael eu derbyn yn awtomatig mewn rhan arall. Byddai dim gwahaniaethu'n golygu na allai Llywodraeth y DU na gwledydd datganoledig yr Alban a Chymru orfodi gofynion a fyddai'n gwahaniaethu yn erbyn nwyddau'n dod i mewn o ran arall o'r DU. Byddai hyn yn golygu y gallai Llywodraeth Cymru reoleiddio nwyddau a gynhyrchir yng Nghymru, ond nid nwyddau a werthir ym marchnadoedd Cymru. Gallai hyn leihau ei gallu i gyrchu at amcanion polisi cyfreithlon. Disgrifiodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd y Mesur gwreiddiol fel 'Ceffyl Caerdroea' a fyddai'n tanseilio datganoli ac amharu ar ba mor gystadleuol yw busnesau Cymru (Miles, 2020).

Mae Canolfan Llywodraethiant Cymru a'i phartneriaid yn cytuno, gan farnu bod egwyddorion drafft gwreiddiol Mesur y Farchnad Fewnol yn cyfyngu mwy ar gapasiti ymarferol y gwledydd datganoledig i reoleiddio gweithgarwch economaidd na chyfreithiau'r UE, gan danseilio rôl y Senedd a Llywodraeth Cymru (Dougan et al, 2020). Mae Dougan et al (2020) yn dadlau bod yr egwyddor o gyfnewid economaidd di-wrthdaro rhwng pedair gwlad y DU, yn ôl y Mesur drafft, yn goresgyn pob nod ac amcan polisi cyhoeddus arall, gan gynnwys datganoli. Mae'r Mesur hefyd yn rhoi pwerau gwario newydd i Lywodraeth y DU mewn nifer o feysydd polisi, gan gynnwys seilwaith trafnidiaeth, sy'n goresgyn cymwyseddau'r Senedd.

Mewn ymateb i'r pryderon hyn, mae Llywodraeth y DU wedi derbyn nifer o newidiadau i Fesur y Farchnad Fewnol. Maen nhw'n cynnwys mwy o oddefgarwch os bydd safonau'n wahanol mewn fframweithiau cyffredin, fel y gallai'r gwledydd datganoledig eithrio rhai amrywiadau mewn safonau o'r fframwaith mynediad marchnad (PA Media, 2020). Hefyd, bwriedir cynnwys darpariaethau i ailgyflwyno eithriadau budd cyhoeddus i'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol, sy'n gadael i lywodraethu wyro o safonau er mwyn dilyn nod polisi cyhoeddus cyfreithlon (Tŷ'r Arglwyddi, 2020). Nid yw'r diwygiadau hyn wedi eu cytuno eto ond, yn ôl datganiadau i'r wasg, awgrymir y bydd Llywodraeth y DU yn cytuno iddynt yn Nhŷ'r Cyffredin (PA Media, 2020).

Y gobaith yw y bydd adolygiad presennol Llywodraeth y DU o gysylltiadau rhyng-lywodraethol yn egluro sut y gellid datrys unrhyw anghydfod ynghylch sut i gymhwyso'r egwyddorion ar gael mynediad i'r farchnad.

Ochr yn ochr â chynigion Llywodraeth y DU, mae pedair llywodraeth y DU wedi bod yn datblygu fframweithiau cyffredin yn y meysydd lle mae'r cymwyseddau datganoledig a rhai a

drosglwyddir gan yr UE yn gor-gyffwrdd, er mwyn diogelu marchnad fewnol y DU. Rhoddir sail statudol i'r fframweithiau cyffredin hyn yn nrafft diweddaraf Mesur y Farchnad Fewnol. Mae Llywodraethau Cymru a'r Alban wedi awgrymu bod fframweithiau cyffredin, a allai gynnwys amcanion a safonau cyffredin, cytgord a chytundebau ar gydnabyddiaeth gilyddol ar draws gwahanol feysydd polisi, yn fwy manteisiol i ddatganoli ac yn ei barchu'n well.

Bydd gan brotocol Gogledd Iwerddon hefyd oblygiadau i farchnad fewnol y DU; bydd ei weithrediad yn creu beichiau gweinyddol sylweddol i nwyddau'n symud o Brydain i Ogledd Iwerddon. Sefydlwyd Gwasanaeth Cymorth Masnachwyr newydd i helpu busnesau i gydymffurfio â thollau ond mae'r galw amdano'n debygol o fod yn llawer mwy na'i gapasiti ac mae'n aneglur a fydd yn gallu ehangu'n effeithiol cyn mis Ionawr.

Gogledd Iwerddon yw cyrchfan tua thraean o'r nwyddau a gludir ar longau rhwng Caergybi a Dulyn (a'r ffordd arall hefyd). Mae cytuno i weithredu Protocol Gogledd Iwerddon yn rhoi rhywfaint o sicrwydd na fydd tollau, dros dro o leiaf, ar nwyddau'n teithio rhwng Caergybi a Gogledd Iwerddon drwy Ddulyn (Sargeant a Jack, 2020). Fodd bynnag, erys cwestiynau hirdymor ynghylch a fydd nwyddau'n dod i mewn i Brydain o Ogledd Iwerddon drwy Ddulyn yn gallu elwa o 'fynediad di-rwystr', a pha reolau tollau fydd yn berthnasol i nwyddau o Brydain sy'n mynd i Ogledd Iwerddon yn y dyfodol, a allai olygu y bydd rhai busnesau efallai'n dewis cludo'n syth i Ogledd Iwerddon, gan leihau'r fasnach drwy Gaergybi.

Ar y cyfan, ychydig iawn y mae Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu â'r gwledydd datganoledig wrth gynnal trafodaethau negodi â'r UE; a gwrthodwyd galwadau gan Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i fod yn rhan uniongyrchol o'r trafodaethau. Mae hyn efallai wedi cyfrannu at beth o'r anghydfod ynghylch marchnad fewnol y DU. Ar y llaw arall, mae trafodaethau negodi Llywodraeth y DU â gweddill y byd wedi adlewyrchu cydnabyddiaeth bod y gweinyddiaethau datganoledig yn gyfrifol am weithrediad ac mae'r Adran Masnach Ryngwladol wedi croesawu cyfraniadau Llywodraeth Cymru.

## Parodrwydd a phandemig y coronafeirws

Mae rhai sectorau'n llai parod am y pontio sydd i ddod nag yr oeddent am derfynau amser blaenorol Brexit. Mae hyn yn rhannol oherwydd y pandemig sydd wedi amharu ar 'allu a pharodrwydd' y sectorau i gynyddu eu stociau, a hefyd o ganlyniad i 'flinder Brexit' wrth i'r sectorau achosi costau'n paratoi am gylchoedd blaenorol a diangen yn y diwedd. Os bydd problemau ar ddechrau 2021, byddai'r diffyg parodrwydd hwn yn effeithio'n enwedig ar sectorau sy'n dibynnu mwy ar brosesau ffin di-dor fel amaeth, modurol ac awyrofod.

Mae perygl, yn dilyn y pandemig, y bydd Llywodraethau'r DU a Chymru'n llai parod ar gyfer pontio ac y bydd ganddynt lai o gapasiti ariannol i amddiffyn busnesau rhag aflonyddwch tymor byr. Fodd bynnag, yn y tymor canolig, gallai newidiadau economaidd ehangach wedi

eu hysgogi gan bandemig y Coronafeirws liniaru yn erbyn effaith y pontio Ewropeaidd a dylanwadu ar ffurf economi Cymru. Er enghraifft, gellid hybu cadwyni cyflenwi cyfochrog a 'chapasiti cynnydd mewn galw', lle gallai busnesau newid at gyflenwyr o Gymru pe bai cadwyni cyflenwi byd-eang yn cael eu heffeithio (Pwyllgor Masnach Ryngwladol, 2020; Roscoe, 2020). Mae'r pethau hyn eisoes yn ddyheadau gan rai sectorau lle mae cyflenwi'n hanfodol bwysig (fel cyffuriau neu gyfarpar meddygol) a gellid hefyd eu defnyddio mewn sectorau strategol. Ynghyd â'r symudiadau rhagarweiniol i 'ailwladoli' cynhyrchu, gallai'r rhain wella gwydnwch economi Cymru a lliniaru yn erbyn effaith rhwystrau masnach newydd. Fodd bynnag, hap-ddatblygiadau yw'r rhain o hyd i raddau felly ni ddylid dibynnu arnynt.

Mae gan sectorau unigol bryderon ac addasiadau i'w gwneud i ymateb i'r hyn a gytunir erbyn Ionawr 2021. Bydd busnesau gwasanaethau'n wynebu rhwystrau, gofynion rheoliadol a chyfyngiadau newydd ar werthu i gwsmeriaid yn yr UE (Lowe, 2020b). Mae'r rhan nesaf yn egluro'r goblygiadau y mae'r sectorau sydd wedi eu hadnabod i fod yn allweddol i economi Cymru yn ei ddisgwyl, a sut y maen nhw'n paratoi.

# Sectorau allweddol

Mae economi Cymru'n cynnwys nifer o sectorau ac o'r rhain rydym wedi dewis sectorau 'allweddol' a phob un naill ai'n gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru; yn bwysig yn ddiwylliannol neu'n gymunedol; yn gwneud cyfraniad penodol i arloesi; neu gyda mantais gymharol. Mae dadansoddi'r goblygiadau i'r sectorau hyn o ganlyniad i bontio o'r Undeb Ewropeaidd yn gyfle i wirio beth yw'r tybiaethau, deall y prif broblemau a phryderon, ac ystyried sut y gallai Llywodraeth Cymru ymateb.

**Tabl 1: Sectorau economaidd allweddol**

| | |
|---|---|
| Awyrofod | Gwasanaethau ariannol |
| Amaethyddiaeth a bwyd | Gwyddorau bywyd |
| Modurol | Gwasanaethau busnes proffesiynol |
| Lled-ddargludyddion cyfansawdd | Dur |
| Seiber-ddiogelwch | Twristiaeth |
| Nwyddau a gwasanaethau digidol a chreadigol | |

Fe wnaethom gynnal wyth cyfweliad â chynrychiolwyr o fusnesau, cymdeithasau a grwpiau ar draws y sectorau. Fe wnaethom drafod eu pryderon a'u blaenoriaethau o ran y berthynas

fasnachu gyda’r UE a gwledydd eraill yn y dyfodol, pa mor barod oedd busnesau yn eu sector, a pha mor wahanol yw’r sectorau a’u pryderon yng Nghymru o’i gymharu â gweddill y DU. Clywsom hefyd gan lawer a holwyd am sut yr oedd pandemig parhaus y Coronafeirws wedi effeithio ar eu sector a pharatoi am fasnachu yn y dyfodol.

## Awyrofod

- Dylid lleihau unrhyw ansicrwydd am ffurflenni datgan ac oedi yn sgîl tollau oherwydd, o gofio natur ryngwladol y prosesau gweithgynhyrchu, gallai’r rhain wneud y sector yn llai cystadleuol.
- Mae’n aneglur pa mor hir y bydd yn ei gymryd i’r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) gymryd drosodd swyddogaethau’r Asiantaeth Diogelwch Awyrofod Ewropeaidd (EASA) ac effaith hyn ar allu cwmnïau i weithredu yn yr UE o ganlyniad.
- Mae gan gymorth i Ymchwil a Datblygu ac arloesi yn y sector fanteision posib i ddatblygiad ecosystemau o ran echdynnu hydrogen, defnydd o drôns gan y boblogaeth sifil a hedfan yn y gofod. Gallai Llywodraeth Cymru chwarae rôl ymgynnull i gynorthwyo arloesi traws-sector.

Mae gan Gymru sector awyrofod cymharol gryf (lleolir 10% o weithlu awyrofod y DU yng Nghymru o’i gymharu â dim ond 5% o boblogaeth y DU). Mae sector awyrofod Cymru’n cynnwys defnydd milwrol a sifil, yn ogystal ag ‘ardaloedd hedfan newydd’ yn cynnwys drôns a hedfan yn y gofod, ac mae gan wyth o’r deg cwmni awyrofod ac amddiffyn mwyaf yn y byd bresenoldeb yng Nghymru. Mae’r presenoldeb hwn yn amrywio o fach i sylweddol ac yn cynnwys cyflogwyr mawr fel Airbus yng Nghasnewydd a Brychdyn. Mae gan y sector elfen o bwysigrwydd strategol, fel cyflogwr mawr ac fel sector sy’n cyfrannu at amddiffyn cenedlaethol. Mae hefyd yn rhoi cyfle i arloesi fel gyda’r datblygiad ym Maes Awyr Llanbedr ar gyfer hedfan isorbital drwy’r gofod.

Oherwydd natur y sector, mae gweithgynhyrchu a phrosesu wedi eu gwasgaru ar draws nifer o safleoedd yn rhyngwladol. Er enghraifft mae Airbus ym Mrychdyn yn gwneud adenydd awyrennau sifil, nid yr awyrennau llawn. Mae’r rhan fwyaf o nwyddau awyrofod yn ddi-doll o dan reolau’r WTO ond mae cysondeb a chydymffurfio’n bryder i’r sector. Mae’r DU wedi awgrymu y bydd yn gadael yr EASA ac yn ail-greu capasiti’r CAA. Mae’r sector yn poeni y bydd hon yn rhaglen hirdymor, fydd efallai’n cymryd degawdau, ac yn y cyfamser y bydd angen datrys problemau fel cydnabyddiaeth gilyddol o gymwysterau proffesiynol a chysondeb safonau.[2] Mae angen cael systemau yn eu lle i sicrhau nad yw safonau yn y DU

[2] Mae’r diwydiant awyrennau wedi dweud eu bod yn amheus y bydd y DU yn gallu cynhyrchu cyfres annibynnol o safonau i’r DU. Mewn gwrandawiad gan y Pwyllgor Dethol ar Drafnidiaeth, awgrymodd Willie Walsh (Prif Weithredwr yr International Airlines Group ar y pryd) fod yr arbenigedd a oedd unwaith yn y CAA wedi hen fynd, a

yn gostwng o dan safonau'r UE, oherwydd mae busnesau'n poeni am ennill cymeradwyaeth awyr-ddiogel trydedd gwlad sy'n dangos bod eu cynhyrchion yn cwrdd â'r safonau lleiaf sy'n ofynnol gan yr UE a'u bod wedi eu cymeradwyo i gynhyrchu darnau. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried natur traws-Ewropeaidd llawer o'r cadwyni cyflenwi awyrofod.

Mae'r ansicrwydd ynghylch y berthynas fasnach a safonau rheoliadol yn y dyfodol wedi taro hyder y sector hwn yng Nghymru. Gallai oedi posib wrth ffiniau waethygu hyn, yn enwedig pe byddai hyn yn achosi oedi i weithgynhyrchu ac oedi wedyn gyda chael gafael ar ddarnau. Hefyd, mae rhai cwmnïau'n dibynnu ar gylchdroi staff ar draws ffiniau gan ofni y bydd y gyfundrefn fewnfudo newydd yn gwneud hyn yn anoddach.

Ar y cyfan, mae parodrwydd yn uchel ac mae busnesau mwy'r sector yn teimlo'n barod am ddiwedd y cyfnod pontio. Mae peth pryder am 'flinder Brexit', yn enwedig gan gyflenwyr llai nad oes ganddynt efallai'r capasiti i sicrhau cyflenwad cyson na 'chwaith i ddelio â beichiau rheoliadol newydd. Pryder arall yw'r amser a roddir i addasu i'r berthynas dollau a masnachu newydd, a byddai'n sicr yn well gan y sector weld cyfnod estynedig ar gyfer ei gweithredu.

Nid yw'n syndod deall bod pandemig y Coronafeirws wedi cael effaith sylweddol a pharhaus ar y sector awyrofod. Disgrifiwyd yr ergyd fel un arbennig o ddofn a dinistriol o'i chymharu ag argyfyngau blaenorol. Bellach mae cynhyrchu'n dechrau ailafael ynddi ond disgwylir i ragolygon ynghylch colli swyddi, llai o alw ac arafu cynhyrchu barhau i gael effaith ar wydnwch y sector.

Er hyn, mae teimlad cyffredinol o optimistiaeth ynghylch dyfodol y sector yng Nghymru. Cyfeiria rhanddeiliaid at rôl hanfodol fyd-eang Cymru a'r DU mewn gweithgynhyrchu awyrennau fel arwydd na chaniateir i'r sector fethu ac y bydd rhyw fath o gytundeb yn cael ei gyrraedd, er y gallai'r agwedd hon fod yn beryglus os yw'r sector yn dibynnu arni i gynllunio. Ystyrir y ffaith bod Cymru'n wlad fach a chymharol wledig yn gadarnhaol ar gyfer datblygu technolegau a diwydiannau newydd, gan gynnwys y potensial ar gyfer echdynnu hydrogen, defnydd o drôns gan y boblogaeth sifil a hedfan yn y gofod, sydd i gyd yn bethau a allai hwyluso arloesi mewn sectorau eraill. Ar yr un pryd, mae yma eisoes sylfaen gref o gwmnïau y gellid eu cynorthwyo drwy raglenni arloesi ac Ymchwil a Datblygu presennol. Gallai cymorth ariannol a chyngor pellach i wella arloesi roi hwb i'r sector a gallai Llywodraeth Cymru annog arloesi traws-sector drwy chwarae rôl ymgynnull.

---

bod cydymffurfio naill ai â rheolau EASA neu'r American Federal Aviation Administration yn fwy tebygol (Pwyllgor Trafnidiaeth, 2017).

## Amaethyddiaeth a bwyd

- Mae masnach ddi-doll a di-gwota'n hanfodol os yw busnesau i aros yn gystadleuol.
- Gallai oedi wrth ffiniau'n gysylltiedig â gwiriadau rheoliadol ac ardystio i fusnesau sy'n allforio cynnyrch ffres fod yn drychinebus.
- Bydd cynnal y safonau bwyd presennol ar gyfer cytundebau masnach yn y dyfodol yn hollbwysig i sicrhau bod cynnyrch Cymreig yn aros yn gystadleuol.
- Bydd trosglwyddo cyfrifoldeb am gymorthdaliadau ffermio'n gyfle i Lywodraeth Cymru gefnogi gwasanaethau ategol, hyrwyddo defnydd mwy cynaliadwy o dir ac annog arallgyfeirio.

Fe wnaethom holi busnesau sy'n cynrychioli pob un o'r gwahanol rannau o'r sector hwn, sef amaeth, pysgodfeydd a chynhyrchu bwyd a diod. Mae gan bob un ei flaenoriaethau a'i bryderon er bod tir cyffredin sylweddol ar faterion allweddol.

Mae amaeth, pysgodfeydd a chynhyrchu bwyd a diod yn sectorau rhanbarthol a diwylliannol bwysig yng Nghymru gan chwarae rôl bwysig mewn cymunedau gwledig. Tir pori'n bennaf yw'r tir amaethyddol yng Nghymru gyda dim ond ychydig ohono'n cael ei ystyried yn addas i dyfu cnydau âr. Mae hyn yn nodweddiadol o amaethyddiaeth Cymru; mae cnydau âr yn tueddu i fod yn fwy cyffredin yng ngweddill y DU. Cig oen, cig eidion a chynnyrch llaeth yw'r prif nwyddau. Mae pysgodfeydd Cymru'n cynhyrchu pysgod cregyn, cramenogion a molysgiaid (fel cregyn moch) yn bennaf, gyda chyfyngiadau cwota a nodweddion fflyd yn atal pysgota am rywogaethau eraill. Mae cynhyrchu bwyd a diod yn cyflogi tua 24,500 o bobl yng Nghymru, gyda dosbarthiad daearyddol eang ar draws y wlad, a busnesau meicro'n cynrychioli rhan fawr o'r sector hwn.

Mae ymchwil gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi nodi'n glir beth fydd goblygiadau tebygol gadael yr Undeb Ewropeaidd i'r sector hwn. Mae dirywiad mewn hyfywedd economaidd cadw defaid yn debygol, gyda busnesau fferm yn arbennig o fregus i'r newid yn y mynediad at farchnadoedd a llai o gyllid cyhoeddus. Mae gan hyn oblygiadau mwy i gymunedau gogledd a gorllewin Cymru na rhai yn y de a'r dwyrain, lle bydd effeithiau mwy amrywiol yn debygol i ffermydd llaeth, garddwriaeth a mathau eraill o ffermydd (Dwyer et al., 2018). I gymunedau pysgota, un o'r prif bryderon yw bod strwythur y fflyd Gymreig yn golygu ei bod yn cael ei hanwybyddu o blaid buddiannau pysgota mwy yng ngwledydd eraill y DU (Carpenter et al., 2018). Roedd y rhanddeiliaid i gyd yn poeni am golli masnach ddi-wrthdaro ynghyd ag oedi a rhwystrau rheoliadol wrth y ffin. Mae allforion yn tueddu i fod yn nwyddau darfodus ac mae gan rai, yn arbennig, fywyd silff byr (fel pysgod cregyn a chynnyrch llaeth) felly gallai unrhyw oedi gyda phrosesu tollau, neu hyd yn oed gyrraedd y ffin i ddechrau, ddifetha'r cynnyrch hwn. Yn yr un modd gallai rhwystrau rheoliadol fel gwiriadau glendid a milfeddygol achosi oedi pellach wrth y ffin. Bydd angen y gwiriadau hyn gydag unrhyw

gytundeb masnach a gallent achosi problemau mawr, yn enwedig i bysgodfeydd. Soniodd rhanddeiliaid hefyd am heriau'n gysylltiedig â bod angen ardystiad tystysgrif a bod angen cludo nwyddau i ac o borthladdoedd tollau. Er bod rhai problemau ymarferol, fel cofrestru cychod pysgota fel gweithredwyr busnesau bwyd, wedi cael eu datrys cyn terfynau amser blaenorol, mae teimlad yn y sector nad oes digon wedi'i wneud i ysgafnu'r beichiau rheoliadau disgwyliedig.

Mae tollau'n parhau i fod yn bryder, yn enwedig pe byddent ar lefel sy'n gwneud allforion o Gymru'n anghystadleuol. Ar y llaw arall, gallai tollau isel ar fewnforion o wledydd eraill yn y byd arwain at nwyddau rhad yn boddi'r farchnad gan wthio cynhyrchwyr Cymru allan o fusnes. Bydd ansicrwydd – ynghylch tollau neu rwystrau di-doll eraill – yn ei gwneud yn anodd i fusnesau gynllunio eu cynhyrchu, gan niweidio'r sector ymhellach.

Un flaenoriaeth bwysig i'r sector yw cynnal y safonau bwyd presennol mewn unrhyw gytundeb masnach yn y dyfodol. Mae pryder cryf a gafodd sylw sylweddol y gallai partneriaid mewn cytundeb FTA posib ofyn i'r DU fewnforio nwyddau nad ydynt yn cwrdd â'r safonau bwyd presennol. Pe bai'r mewnforion safon is hyn yn cael eu cynhyrchu'n rhatach na rhai a gynhyrchir yn y DU, gallai wneud prisiau bwyd a gynhyrchir yn y DU yn llai cystadleuol.

Mae cyfle i newid pethau er gwell. Mae pysgodfeydd yn gweld ailwladoli cwotâu pysgota fel rhywbeth a allai hwyluso ehangu ac arallgyfeirio mwy hirdymor, er y byddai'n cymryd mwy o amser i'w wireddu a byddai angen ei gynllunio'n ofalus. Er hynny, mae ffactorau sy'n gwneud newid llwyr mewn polisi pysgodfeydd yn bosib: y rôl fach yn hanesyddol y mae rheoli pysgodfeydd wedi'i chael yn Llywodraeth Cymru; amcanion uchelgeisiol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; y trawsnewid rheolaeth y bydd gadael yr UE yn ei ganiatáu; a'r teimlad eang nad yw rheolaeth o bysgodfeydd Cymru'n darparu'n dda yn ei ffurf bresennol (Carpenter, 2020). Yn yr un modd, mae trosglwyddo cyfrifoldeb am gymorthdaliadau ffermio i Lywodraeth Cymru'n dod â chyfleoedd, er bod y sector yn gyffredinol yn erbyn symud yn llwyr at roi cymorthdaliadau i nwyddau amgylcheddol.

Ar lefel ddomestig, gallai rhwystrau i fasnachu fod yn gyfle i rai ffermydd, er enghraifft, fewnforio cyfnewidion a chynyddu eu gwerthiant i brynwyr domestig oedd yn prynu gan gynhyrchwyr o'r UE o'r blaen. Awgryma ymchwil gan Dwyer (2016) y gallai hyn fod yn fwy tebygol i ffermwyr llaeth a dofednod na ffermwyr cig eidion ac oen.

Mae angen i drafodaethau am ffurf systemau cymorth newydd i ffermydd ystyried yr hyn y mae'r sector yn ei weld fel y rôl economaidd bwysig y mae ffermio'n ei chwarae mewn cymunedau lleol (er enghraifft gyda chefnogi gwasanaethau ategol fel cwmnïau porthiant anifeiliaid neu filfeddygon) yn ogystal â hyrwyddo defnydd mwy cynaliadwy o dir a chaniatáu arallgyfeirio lle bo hynny'n briodol. Gallai partneriaethau mwy hirdymor rhwng llywodraeth, manwerthwyr bwyd, ffermwyr a benthycwyr masnachol i hyrwyddo seilwaith BBaCh a

rhwydweithiau busnes cryfach hefyd wella gwydnwch y sector ynghyd ag ansawdd y tirlun a hunaniaeth gymunedol (Dwyer 2018).

## Modurol

- Gallai tollau wneud i ffwrdd ag elw gweithredol rhai cwmnïau'n llwyr ac mae perygl na fydd busnesau'n aros yn y DU.
- Efallai na fydd busnesau'n ddigon parod am safonau newydd a chymhleth ac felly'n methu â chydymffurfio â phrosesau ardystio.
- Gallai Llywodraeth Cymru gynorthwyo'r sector drwy fod yn glir ynghylch y gofynion ar gyfer cydymffurfio â'r rheolau a'r safonau newydd.

Mae'r diwydiant modurol yng Nghymru'n gymharol amrywiol gan gynnwys ffatrïoedd cydosod yn ogystal â chyflenwyr sy'n darparu'r darnau a'r cydrannau. Mae'r cyflenwyr hyn wedi eu grwpio'n gyflenwyr haen 1 sy'n tueddu i fod yn fwy arbenigol; ac yn gyflenwyr haen 2 sy'n tueddu i ddarparu darnau llai ond mwy cyffredinol. Mae'r diwydiant a'i gadwyn gyflenwi'n cyflogi tua 15,000 o bobl ac wedi'i leoli'n bennaf yn ne Cymru.

Mae'r diwydiant modurol yn eithaf agored i ganlyniadau perthynas fasnachu newydd. Er bod y sector yn allforio dros 80% yn fyd-eang, ac mae dros hanner hyn oddi mewn i Ewrop, mae mwy'n cael ei fewnforio na'i allforio oherwydd bod angen cydrannau ar gyfer y broses cydosod (Wells 2020). Mae'r agwedd yma ar gynhyrchu yn cyflwyno heriau penodol i reolau tarddiad. Yn ei gytundebau FTA, mae'r UE fel arfer yn gofyn bod 55-60% o gerbyd yn cael ei gynhyrchu'n lleol i gael ei ystyried yn Ewropeaidd ac felly wedi'i eithrio o dollau mewnforio. Fodd bynnag, oherwydd bod cydrannau cerbydau trydan a hybrid yn ddrud ac wedi eu mewnforio, gallai'r cerbydau hyn gael trafferth cwrdd â'r trothwy hwn.

Mae gan rwystrau eraill di-doll botensial i gynyddu costau. Er enghraifft, gallai ffurflenni datgan tollau a thrafferthion cael gafael ar nwyddau a reoleiddir yn llym a lle mae diogelwch yn hanfodol (fel caliprau brêc) wneud gweithgynhyrchu yng Nghymru'n anoddach. Gallai methu â chydymffurfio â safonau ac ardystio ddod â chosb sylweddol ac mae pryder na fydd pethau'n cael eu penderfynu mewn pryd i'r sector fod yn gallu paratoi'n iawn. Bydd ardystiadau gwahanol, er enghraifft ardystiad cydymffurfio, ar gyfer marchnad yr UE a'r DU erbyn hyn, hefyd yn gostus a beichus: felly mae'n bwysig iawn cael cydnabyddiaeth gilyddol o hyn. Mae costau cludo hefyd yn gost sylweddol ac felly mae marchnadoedd nes at adref yn fwy proffidiol. Mae tollau ar fasnach rhwng yr UE a'r DU hefyd yn rhwystr fasnach fawr; pe byddent yn cael eu cyflwyno, gallent ddileu elw gweithredol busnesau'n llwyr ac arwain at lai

o allforion a mewnforion.[3] Byddai hyn yn creu her sylweddol i hyfywedd y sector yng Nghymru.

Mae pryderon am hyfywedd mwy hirdymor y sector oherwydd mae rhai gweithgynhyrchwyr yn gwneud busnes rheolaidd â'r UE, a gallent yn y gorffennol fod wedi dewis lleoli yng Nghymru oherwydd y mynediad i'r farchnad Ewropeaidd. Er bod y DU yn farchnad bwysig yn Ewrop, mae'n fregus i gwmnïau newydd: bydd llawer o fusnesau yn yr UE mewn sefyllfa gryfach i ennill contractau newydd a bydd effaith hyn i'w deimlo dros amser (Wells, 2020). Bydd y sefyllfa'n gwaethygu os nad yw'r cytundeb masnach yn caniatáu i fewnbwn tramor gan bartneriaid cytundeb masnach rydd cyffredin – Japan er enghraifft – gael ei drin fel mewnbwn Prydeinig er mwyn gallu cwrdd â'r gofynion ar reolau tarddiad – sef tarddiad cronnol estynedig.

Mae'r ansicrwydd wedi cynyddu'r risg dybiedig o brynu gan fusnesau yn y DU a hefyd wedi arwain at danfuddsoddi yn y sector ers 2016. Mae cynhyrchu'n digwydd ar sail cynhyrchu mewn union bryd oherwydd mae'n ddrud cadw stoc sbâr; fodd bynnag er mwyn ateb yr ansicrwydd ystyriwyd storio mewn warysau a stoc-bentyrru.  Er bod hyn yn opsiwn i'r sector, mae'n cynyddu'r gost o gynhyrchu.

Mae pandemig y Coronafeirws wedi creu problemau llif arian i lawer o gwmnïau gan gyfyngu ar faint o stoc-bentyrru nwyddau y gall busnesau ei wneud cyn 31 Rhagfyr i osgoi oedi wrth y ffin. Mae'r pandemig hefyd wedi achosi cwymp yn y galw am gerbydau newydd gan arwain at gapasiti sbâr yn y system weithgynhyrchu fyd-eang; gan waethygu'r straen ar y sector. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn golygu nad yw aros yn y DU yn apelio lawer i fuddsoddwyr.

Yn y tymor byr mae angen i'r sector ddeall effaith y rheolau a'r rheoliadau newydd yn glir, a sut i gydymffurfio â nhw. Gallai Llywodraeth Cymru chwarae rôl mewn egluro beth fydd angen ei wneud i gydymffurfio â'r rheolau newydd gan efallai weithio gyda Llywodraeth y DU i gynhyrchu dogfennau esboniadol byr a hygyrch.

Yn y tymor canolig, mae creu gweledigaeth ar gyfer diwydiant modurol y dyfodol yn bwysig, gan gynorthwyo'n benodol y modelau busnes newydd a'r newid technolegol sydd ei angen. Er enghraifft, bydd parhau i gefnogi cynyddu capasiti yng Nghymru i wneud batris yn denu buddsoddiadau eraill ar draws y gadwyn gyflenwi. Er mwyn gallu datblygu'r weledigaeth hon, byddai angen cael dealltwriaeth well o'r sector yng Nghymru: gan gynnwys mapio ei

[3] Mae'r UE yn codi toll MFN o 10% ar fewnforion ceir gorffenedig a 4% ar fewnforion cydrannau

gyflenwyr, deall y risgiau a'r nodweddion bregus, a'r anghenion technoleg ar gyfer y dyfodol (Wells, 2020).

## Lled-ddargludyddion cyfansawdd

- Mae angen lliniaru colli'r cydweithrediad ymchwil sy'n dibynnu ar gyllid gan yr UE.
- Mae sicrhau sefydlogrwydd a chyllid hirdymor ar gyfer y sector yn flaenoriaeth. Yn benodol, byddai buddsoddi targed mewn prototeipio gan Lywodraeth Cymru'n cynorthwyo twf y diwydiant yng Nghymru.

Mae Cymru'n ganolfan fyd-eang ar gyfer lled-ddargludyddion cyfansawdd. Mae sefydlu'r Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd (CSC) yn ddiweddar yn ymgais i gytgordio'r gweithrediadau presennol ar draws ystod o gwmnïau er mwyn hwyluso mwy o gydweithrediad a denu buddsoddiad. Mae blaenoriaethau masnach y sector yma'n benodol gyda llawer mwy o ffocws ar gydweithrediad ymchwil a gwneud y mwyaf o'r posibiliadau newydd ar gyfer cymorth gwladwriaethol na mewn sectorau eraill.

Ar y cyfan mae'r sector yn teimlo'n eithaf parod i adael yr UE ac wedi cymryd camau i liniaru rhai o'r canlyniadau disgwyliedig, er enghraifft drwy ailwladoli pwyntiau dosbarthu deunyddiau crai o'r UE i'r DU. Mae'r rhan fwyaf o allforion yn rhai i wledydd y tu allan i'r UE felly mae'r rhan fwyaf o fusnesau'n gyfarwydd â gwiriadau tollau a phrosesau rheoliadol eraill, a gyda phrosesau a systemau eisoes yn eu lle.

Mae'r sector wedi'i gysylltu i glystyrau ymchwil rhyngwladol, yn benodol drwy gynllun Horizon 2020 yr UE. Ers y refferendwm, mae lleihad amlwg wedi bod yn y rôl a roddir i bartneriaid y DU yn y prosiectau hyn (gan gynnwys eu symud o statws partner i statws is-gontractwr) ac mae'r cydweithrediad parhaus unwaith y daw'r cyfnod pontio i ben yn ansicr. Bydd colli'r cydweithrediad ymchwil, a'r cyllid sy'n dod gyda hynny, yn cael ei deimlo'n ddwfn yn y sector hwn ac mewn sectorau uwch-dechnoleg eraill.

Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y rheolau ar fuddsoddiad cyhoeddus. Defnyddir 'lefelau parodrwydd technoleg' (TRL) yn aml i nodi aeddfedrwydd arloesiad penodol: Lefelau TRL 1-3 yw'r cam prawf cysyniad hyd at gael patent; lefelau TRL 4-6 yw'r camau prototeip a lefelau TRL 7-9 yw'r cam cyn-gynhyrchu a chynhyrchu. Ar hyn i bryd mae'r rheolau ar gymorth gwladwriaethol (yn ogystal ag amodau Horizon 2020) yn cyfyngu buddsoddiad cyhoeddus i lefelau TRL 1-3, ac ychydig iawn o gyllid allanol sydd ar gyfer lefelau TRL 4-9. Mae hyn yn rhoi cynhyrchu yn y DU a'r UE dan anfantais gystadleuol: Ychydig iawn o waith lefelau TRL 1-3 y mae Tsieina, er enghraifft, yn ei ariannu (gan ddewis defnyddio gwaith ymchwil gorllewinol yn hytrach) ond mae'n ariannu lefelau TRL 4-9 yn helaeth, fel bo'n gallu ehangu ei diwydiant yn hawdd.

Nid oes darpariaeth gan y WTO a fyddai'n cyfyngu buddsoddiad cyhoeddus i lefelau TRL 1-3; dewis a wneir gan reolau cymorth gwladwriaethol yr UE yw hyn. Hoffai'r sector weld mwy o gyllid cyhoeddus yn cael ei roi trwodd i'r cam cynhyrchu. Byddai hyn o fudd i economi Cymru, yn enwedig oherwydd bod y 'catapwlt' a lansiwyd gan y CSC bellach yn ei le, gan gyflymu'r ochr gynhyrchu o'r prawf cysyniad i'r cam cynhyrchu (h.y. Lefelau TRL 4-6. Byddai buddsoddiad o'r fath yn helpu i osgoi sefyllfa lle'r oedd arloesiad yn cael patent ond yna'n methu dod o hyd i fuddsoddiad drwy'r cam cyn-gynhyrchu. I sicrhau hyn bydd angen buddsoddiad targed gan Lywodraethau Cymru a'r DU: ar hyn o bryd, nid yw hepgor dros dro'r rheolau ar gymorth gwladwriaethol ar gyfer lled-ddargludyddion cyfansawdd wedi denu cyllid ychwanegol sylweddol gan Lywodraeth y DU.

## Seiber-ddiogelwch

- Oherwydd cymhlethdod y sector, gallai Llywodraeth Cymru hwyluso'r diffiniad o'r sector i ganiatáu asesiad mwy cywir o anghenion y sector.
- Bydd newid y rheoliadau data o rai'r UE i rai'r DU yn effeithio ar sut y gall y sector ddefnyddio a chael gafael ar ddata, gyda goblygiadau posib i wasanaethau cyhoeddus. Mae angen eglurder ynghylch os a sut y gallai rheoliadau data newid.
- Cefnogir busnesau BBaCh gan Lywodraeth Cymru i rwydweithio â phrynwyr ond mae angen mwy o gymorth i ehangu'r ochr gynhyrchu, fel cyngor ar sicrhau buddsoddiad ychwanegol.

Mae gan Gymru sector seiber-ddiogelwch byd-eang ac aml-weddog sy'n cynnwys rhaglenni milwrol a sifil. Yn rhannol, mae hyn oherwydd daearyddiaeth ffafriol, gyda chanolfannau seiber-ddiogelwch milwrol a GCHQ wedi eu lleoli yn ne-orllewin Lloegr; yn ogystal â chlwstwr yn ne Cymru sy'n gartref i adrannau llywodraeth mawr fel pencadlys y DVLA. Ochr yn ochr â hyn, mae gan Gymru sector cymharol fawr yn cynnwys 60 o fusnesau BBaCh sy'n arbenigo mewn seiber-ddiogelwch, a busnesau mawr fel Thales ac Airbus (Burnap, 2020). Mae'r sector yn fwy nag y byddid yn ei ddisgwyl o wlad mor fach â Chymru ac mae rhywfaint o le i gredu bod 'mas critigol' yn bresennol, gan gynorthwyo mwy o gyfleoedd twf.

I hyn fod yn effeithiol, mae diffinio'r diwydiant a'i sgôp yn bwysig ond nid yw hyn wedi'i wneud yn effeithiol eto. Byddai dealltwriaeth well o'r diwydiant yn caniatáu asesiad mwy cywir o broffil ac anghenion y sector, o'r ochr gyflogaeth i'r ochr fuddsoddi. Teimla'r sector y gallai Llywodraeth Cymru fod yn gwneud mwy i ddeall a chynorthwyo ei ddatblygiad; gallai ymdrech well i gasglu a defnyddio data am y sector hwyluso'r nod hwn.

Mae'r sector seiber-ddiogelwch yng Nghymru a'r DU mewn sefyllfa weddol gryf o ran pontio o'r Undeb Ewropeaidd. Mae gan y DU berthynas dda ers tro byd â gwledydd a sefydliadau eraill, gyda pharch i'w buddsoddiad a'i rhaglenni ar draws y byd (Stevens ac O'Brien 2019). Bydd sawl agwedd ar gydweithrediad seiber-ddiogelwch rhwng y DU a gweddill y byd yn

parhau beth bynnag a ddaw o'r trafodaethau negodi masnach, er y bydd ymadawiad y DU o fframweithiau troseddu cyffredin yr UE yn gwneud hyn yn anoddach. Er hynny mae materion pwysig i'w negodi o hyd. Un flaenoriaeth fydd storio a mynediad at ddata. Bydd newid o reoliadau'r UE i reoliadau'r DU, yn enwedig GDPR, yn effeithio ar sut y gall y sector ddefnyddio a chael mynediad at ddata, a allai fod â goblygiadau i waith y sector a hefyd i wasanaethau fel gofal iechyd ac amddiffyn. Bydd yn bwysig cael eglurder ynghylch a fydd rheoliadau data'n newid i'r DU ar ôl pontio, a sut, a gallai effeithio ar gydweithrediad rhyngwladol yn y dyfodol. Gallai'r diwydiant hefyd fod yn fregus os bydd cadwyni cyflenwi'n ffurfio mewn gwledydd gyda phrotocolau diogelwch a sicrhau gwybodaeth llai llym, a bydd angen archwilio hyn yn ofalus (Ascentor, 2020).

Y pryder mwyaf yn ôl pob golwg yw anghenion busnesau BBaCh y sector. Mae meicro-fusnesau'n enwedig yn wynebu trafferthion penodol gydag uwch-feintio. Er bod Llywodraeth Cymru wedi hwyluso cyswllt rhwng busnesau BBaCh a phrynwyr mewn digwyddiadau fel sioeau masnach, mae cymorth annigonol o hyd i helpu busnesau BBaCh i ehangu eu cynhyrchu er mwyn allforio mwy. Gallai Llywodraeth Cymru roi cyngor ar ddod o hyd i fuddsoddiad ychwanegol neu roi grantiau ei hun i hybu twf y sector.

## Nwyddau a gwasanaethau digidol a chreadigol

- Gallai sylw annigonol i eiddo deallusol, data a mewnfudo mewn cytundeb masnach yn y dyfodol danseilio gallu 'creawdwyr' i reoli eu gwaith. Gallai hyn wanhau gallu'r sector i weithredu yn Ewrop.
- Ni fydd newidiadau i'r system fewnfudo'n rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar y sector i gyflogi gweithwyr llawrydd.
- Gallai Llywodraeth Cymru gefnogi fframwaith cydnabyddiaeth gilyddol i gynnal hawliau gweithwyr dros dro o'r UE a chynorthwyo mynediad parhaus at farchnadoedd yr UE.

Mae'r sector creadigol yn cynnwys ystod eang o wasanaethau gan gynnwys rhai na fyddent yn draddodiadol efallai'n cael eu hystyried i fod yn 'greadigol', fel pensaernïaeth a gemâu fideo. Amcangyfrifir bod y sector yn cyflogi 56,000 o bobl, gyda throsiant blynyddol o £2.2 biliwn (Cymru Greadigol 2020). Mae llawer o gyflogwyr mawr, gan gynnwys cwmnïau cyfryngau a chynhyrchu, wedi eu lleoli yng Nghaerdydd ac ardal ehangach de Cymru, er bod y sector wedi'i gynrychioli ar draws Cymru: er enghraifft, lleolir cyhoeddwyr fel Y Lolfa yng Ngheredigion. Mae peth gorgyffwrdd â diwydiannau eraill, gan gynnwys twristiaeth a'r sector treftadaeth.

Effeithiodd y pandemig yn enwedig ar y sector, gyda cholledion swyddi aruthrol a gyda'r posibilrwydd y bydd mwy eto o fusnesau'n cau. Mae'r argraff o ddiffyg cymorth gan y

llywodraeth wedi gwaethygu'r sefyllfa hon. O'r herwydd mae paratoi i bontio o'r UE wedi disgyn ymhell i lawr y rhestr flaenoriaeth.

Mae diogelu eiddo deallusol (IP) a symudedd gweithwyr yn bryderon o bwys ar gyfer unrhyw gytundeb masnach yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae gan y DU hawliau IP rhagorol sy'n diogelu syniadau ac eiddo diwydiannau ac unigolion creadigol ac mae'n greiddiol bwysig nad yw cytundeb masnach yn eu gwanhau. Mae'r pryder yn ymwneud llai â phenderfyniadau penodol gan Lywodraeth y DU a mwy â phoeni na fydd cytundeb masnach rydd yn y dyfodol yn rhoi digon o sylw i hawliau IP (Pwyllgor Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Tŷ'r Cyffredin, 2018). Gallai hyn roi'r argraff neu arwain at golli hawliau mewn gwirionedd, fel na all 'creawdwyr' reoli eu gwaith. Byddai glastwreiddio hefyd yn gwanhau'r gallu i weithredu yn Ewrop, yn enwedig lle'r oedd unrhyw bryderon diogelwch am ddull y DU o drosglwyddo data.

Yn aml iawn, dibynna'r diwydiannau creadigol ar weithwyr medrus o bob rhan o Ewrop a gallai newidiadau i'r system fewnfudo ei gwneud yn anoddach i weithwyr weithio yn y DU. Yn benodol, o dan fisas arfaethedig i weithwyr llawrydd, byddai angen naill ai un prosiect gwaith o 28 diwrnod neu ddarn newydd o waith bob 14 diwrnod. Nid yw'r naill opsiwn na'r llall yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r sector yn defnyddio gweithwyr dros dro a llawrydd, sy'n dibynnu ar hyblygrwydd i gyflawni prosiectau bach neu fawr ag ystod o gyflogwyr, gan bara am hyd amrywiol o amser. Oherwydd bod rhannau o'r sector yn defnyddio gweithwyr llawrydd Ewropeaidd gyda sgiliau arbenigol, gallai hyn gael effaith. Byddai dileu cydnabyddiaeth gilyddol o gymwysterau Ewropeaidd hefyd yn effeithio ar allu'r sector i elwa o dalent yng ngwledydd yr UE.

Gallai cryfhau sgiliau gweithwyr yn y DU i wneud iawn am golli mewnfudwyr medrus liniaru rhai o'r pryderon hyn dros amser, a chynnig manteision economaidd ac unigol ehangach. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn lleihau'r effaith ar rannau eraill o'r diwydiannau creadigol sy'n elwa o fod yn gallu cyflawni prosiectau tymor byr yn yr UE ar hyn o bryd.  Er enghraifft, gallai bandiau ar daith neu artistiaid yn dangos eu gwaith ddibynnu'n ariannol ar brosiectau tramor a chael eu heffeithio'n negyddol gan y posibilrwydd o golli'r rhyddid tymor byr i symud nôl a blaen.

Er mwyn parhau i gael mynediad at farchnadoedd a thalent Ewropeaidd (neu fynediad at farchnad y DU i gwmnïau ac unigolion o'r UE), bydd angen cydweithrediad a chydnabyddiaeth gilyddol o gymwysterau proffesiynol a chytundeb arnynt ar lefel genedlaethol. Gallai Llywodraeth Cymru gefnogi sefydlu fframwaith cydnabyddiaeth gilyddol i hwyluso hyn.

## Gwasanaethau ariannol, eiddo a busnes

- Er bod y sector yn eithaf parod ar y cyfan, effeithir ar wasanaethau sydd angen presenoldeb ffisegol yng ngwledydd yr UE neu ardystiad lleol. Cynlluniwyd i weithio o gwmpas rheolau fisa tymor byr drwy sefydlu lleoliadau Ewropeaidd.
- Byddai sicrhau cydgyfeirio â'r UE ar reoliadau data'n rhoi sicrwydd i gwmnïau sy'n gweithio ar draws ffiniau.

Mae'r sector gwasanaethau ariannol yng Nghymru'n cynnwys un cwmni FTSE 100, Admiral, a chymysgedd o ddarparwyr a banciau llai (gan gynnwys Hodge Bank a Banc Datblygu Cymru). Mae cwmnïau gwasanaethau busnes proffesiynol yng Nghymru'n cynnwys Deloitte, sydd â chanolfan ddarparu yng Nghaerdydd, yn ogystal â rhai cwmnïau llai. Oherwydd bod y problemau gan y sectorau hyn yn gysylltiedig yn aml, rydym wedi eu cyfuno yn ein dadansoddiad ond dylid nodi bod gwahaniaethau'n ogystal â gorgyffwrdd.

Mae rhannau o Gymru'n eithriadol fregus os bydd pontio'n anodd i'r sectorau hyn. Awgryma ddadansoddiad gan y *Centre for Cities* fod 81% o allforion gwasanaeth Caerdydd, a 54% o'i holl allforion, yn wasanaethau ariannol (Breach a Piazza, 2018). Dyma'r gyfran fwyaf o allforion gwasanaeth, a'r ail gyfran fwyaf o allforion gwasanaethau ariannol, o holl ddinasoedd y DU.

Fodd bynnag, mae'r sectorau hyn yn teimlo eu bod yn eithaf parod ar y cyfan i ymdopi ag effaith gadael yr UE. Y teimlad gan lawer o'r gwasanaethau sy'n pontio i berthynas newydd rhwng yr UE / DU yw na fydd pethau'n hawdd i ddechrau ond, yn y pen draw, y medrant ymdopi, yn enwedig mewn cyd-destun ôl-Goronafeirws lle bydd gweithio o bell yn fwy ymarferol. Bu'r sector gwasanaethau ariannol, yn enwedig, yn cynllunio ar gyfer gwahanol senarios ac ystyrir bod y sector yn un o'r rhai mwy 'aeddfed' o ran parodrwydd (Deloitte, 2019a).

Un rheswm am y parodrwydd hwn yw bod nifer o ganlyniadau rhagweledig wrth ddod allan o'r cyfnod pontio. Er enghraifft, mae'r trefniadau 'pasbortio' presennol sy'n caniatáu i ddarparwr gwasanaethau ariannol weithredu mewn gwlad arall yn yr UE, bron yn ddi-rwystr, yn debygol o ddod i ben, ac felly gallai ddod yn anoddach i fusnesau Cymru weithredu yn yr UE. Felly mae llawer o gwmnïau wedi sefydlu swyddfeydd yn Ewrop er mwyn ateb y gofynion newydd disgwyliedig hyn.

Gallai rhai proffesiynau a gwasanaethau gael eu rheoleiddio gan wledydd unigol yr UE os na fyddant yn rhan o unrhyw gytundeb masnach rhwng y DU / UE (Deloitte, 2019b). Er bod y sector eisoes yn gyfarwydd â gofynion gwledydd penodol o weithio â gwledydd y tu allan i'r UE, gallent greu anawsterau tymor byr, yn enwedig lle mae'r gofynion yn wahanol rhwng

gwledydd yr UE. Gallai rheoliadau newydd fynnu ar bresenoldeb corfforaethol ffisegol yn y wlad lle gwneir y gwaith, neu ardystiad lleol.

Cymhlethir hyn gan reolau mewnfudo newydd sy'n ymddangos i fod yn atal aseiniadau gwaith tramor tymor byr. Mae hyn ar wahân i fewnfudo mwy hirdymor sy'n rhywbeth nad yw'r sector yn poeni gormod amdano oherwydd mae'n cyflogi gweithwyr gyda chymwysterau a chyflogau uchel fel arfer.

Bydd cludadwyedd a sicrhau digonolrwydd data'n broblem, yn enwedig os bydd rheoliadau'r DU yn wahanol i rai'r UE o dan GDPR, neu os na chytunir ar ddigonolrwydd data fel rhan o gytundeb masnach. Efallai y bydd angen i ddata gael ei storio, neu ei gyrchu i gael mynediad ato, dim ond yn y wlad lle gwneir y gwaith, fydd yn effeithio ar fusnesau allforio.

Y teimlad yw na fydd gan wasanaethau rôl fawr mewn cytundeb masnach rhwng yr UE a'r DU ac mae'r sector wedi cynllunio i fod yn barod am hynny. Gallai hyn gael effaith hirdymor ar bresenoldeb rhai darparwyr gwasanaeth, ond ni chredir ei fod yn broblem daer yn y tymor canolig oherwydd gwreiddiau dwfn y diwydiant yn y DU.

## Gwyddorau bywyd

- Byddai hwyluso cydymffurfiaeth reoliadol yn sicrhau bod y DU yn aros yn rhan o systemau traws-Ewropeaidd, a chadw cwmnïau Cymru'n hyfyw.
- Gallai caffael domestig gryfhau'r sector dros bandemig y Coronafeirws a lliniaru unrhyw golledion allforio.
- Bydd cytundebau cydnabyddiaeth gilyddol fel rhan o gytundeb FTA yn hollbwysig i reoleiddio meddyginiaeth.

Mae sector gwyddorau bywyd Cymru'n gymharol fawr gyda phresenoldeb gweithgynhyrchu sylweddol, gan gynnwys mewn diagnostig a thechnoleg feddygol, er nad oes presenoldeb 'big pharma' mawr yma. Mae'r sector yn cyflogi tua 11,000 o bobl yng Nghymru. Yn 2019 aeth tua 40% o allforion fferyllol y DU'n uniongyrchol i'r UE a daw 80% o'r mewnforion o'r UE. Nodweddir y sector yn drwm gan gwmnïau canolig i fawr, gyda phencadlysoedd a pherchnogion y tu allan i Gymru. Mae gwyddorau bywyd yn sector a reoleiddir yn drwm, gyda rhwystrau sylweddol i ymuno; mae cydymffurfiaeth reoliadol felly'n bwysig iawn.

Oherwydd bod y rhan fwyaf o'r sector eisoes yn allforio y tu allan i'r UE a phob marchnad yn gofyn cydymffurfio â safonau lleol, bydd gwahaniaeth mewn safonau'n unig yn annhebygol o fod yn rhwystr mawr. Fodd bynnag, bydd cydymffurfio â rheoliadau'r UE heb os yn anoddach ar ôl y cyfnod pontio. Er enghraifft, rhaid cynnal treialon clinigol Ewropeaidd yn yr UE, gyda chyffuriau'n cael eu gweithgynhyrchu yn yr UE a'u cymeradwyo gan Berson Cymwys Ardystiedig gan yr UE. Byddai felly angen i fusnesau yn y DU gael presenoldeb yn

yr UE, na fyddai'n gynaliadwy yn y tymor hir ac a allai, yn ei dro, arwain at grebachu maint y sector yng Nghymru.

Bydd cytundebau cydnabyddiaeth gilyddol ar feddyginiaethau a dyfeisiau'n hanfodol. Hebddynt, bydd angen i bopeth gael ei ailbrofi wrth eu hallforio (Greville, 2020). Mae prinder cyrff hysbysedig cymwysedig i ardystio bod dyfeisiau meddygol yn cwrdd â safonau gofynnol yr UE, a'r Sefydliad Safonau Prydeinig yw'r unig gorff ar ôl (a bu'n rhaid iddynt agor swyddfeydd yn yr Iseldiroedd i aros yn ardystiedig). Ar hyn o bryd maen nhw'n profi oedi oherwydd y gweithgarwch uchel yn y sector. Er bod ardystiad wrth gefn ar gael gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, fel y saif pethau ni fydd yr UE yn cydnabod eu hasesiadau ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben.

Blaenoriaethau eraill gan y sector ar gyfer cytundeb masnach rydd yw cyflenwad a mynediad at feddyginiaethau, diogelu safonau byd-eang uchel, a sicrhau bod y DU yn aros yn arweinydd byd-eang yn y sector. Nid yw tollau'n her i'r sector oherwydd, o dan Gytundeb Fferylliaeth y WTO, nid oes toll i'w thalu ar y rhan fwyaf o feddyginiaethau, a lle mae tollau i'w talu ar gydrannau, mae'r effaith yn fach (Greville, 2020).

Daeth yn amlwg o bandemig y Coronafeirws pa mor bwysig yw'r sector hwn, ac i aros yn gynaliadwy rhaid iddo fod yn gallu allforio. Byddai hwyluso cydymffurfiaeth reoliadol a sicrhau bod y DU yn aros, gymaint â phosib, yn rhan o systemau rheoleiddio meddygol traws-Ewropeaidd, yn helpu i'w gadw'n hyfyw. Gallai Llywodraeth Cymru gynorthwyo busnesau i ddeall a gweithredu unrhyw reoliadau newydd o'r UE a lobio dros aelodaeth barhaus o systemau rheoleiddio traws-Ewropeaidd. Fodd bynnag, ni fyddai datblygu cadwyni cyflenwi cyfochrog, fel y cynigiodd rhai sectorau, o reidrwydd yn ateb i gwmnïau fferyllol oherwydd byddai ailwladoli'n debygol o arwain at brisiau rhy uchel i'r GIG (Greville, 2020).

Er y bydd gwyddorau bywyd o hyd yn dibynnu ar allforion, gellid gwneud mwy ar lefel ddomestig drwy gaffael cyhoeddus i gryfhau busnesau yng Nghymru. Mae busnesau'n bodoli a allai gynhyrchu amrywiol gyfarpar, o PPE i eitemau diagnostig ac adweithredyddion arbenigol. Mae cystadlu rhwng gwledydd a phroblemau caffael wedi cyfyngu ar lwyddiant busnesau domestig yn y pandemig; gellid cywiro hyn drwy'r gaeaf a thrwy'r flwyddyn nesaf. Gallai addasu cymorth gwladwriaethol i'w wneud yn fwy penodol hefyd gynorthwyo uwch-weithgynhyrchu yn y sector. Bydd hyn yn arbennig o fuddiol os na fydd cytundeb oherwydd disgwylir i gostau patentau gynyddu.

## Dur

- Mae dur yn sector amlwg yng Nghymru a gallai newidiadau i'r berthynas fasnachu effeithio'n anghymesur ar yr economi, cyflogaeth ac incwm mewn rhannau o'r wlad.

- Mae ansicrwydd tollau yn y dyfodol eisoes yn effeithio ar y galw. Yn ogystal â'r UE, mae UDA a Thwrci'n bartneriaid masnach allweddol.
- Mae gan Lywodraeth Cymru eisoes strategaethau domestig i hyrwyddo defnyddio dur o Gymru a'r DU a gellid cryfhau'r rhain ar draws y DU.

Mae dur yn sector cryf yng Nghymru sy'n seiliedig yn bennaf ar allforion; mae gan ddiwydiant y DU bresenoldeb anghymesur yng Nghymru, lle cynhyrchir dros hanner dur y DU. Ar wahân i Tata Steel ym Mhort Talbot, mae safleoedd hefyd yng Nghaerdydd, Casnewydd a Wrecsam ynghyd â safleoedd eraill gan Tata yn Llanwern a Llanelli. Fel arfer mae dur yn gyflogwr mawr gan gynnig swyddi medrus sy'n talu'n dda, yn aml mewn ardaloedd lle mae cyflogau'n gymharol isel. Mae'r sector yn cyflogi dros 7,000 yn uniongyrchol yng Nghymru a rhwng 10,000 a 20,000 yn anuniongyrchol. Er bod cynhyrchu dur yn y DU wedi dirywio, mae dur wedi'i gynhyrchu'n ddomestig yn parhau i fod yn strategol bwysig a gallai gyfrannu at ddatblygiad ehangach gan gynnwys cefnogi twf diwydiannau a ddi-garboneiddiwyd. Fodd bynnag, mae angen buddsoddi'n drwm i gynnal y sector a disgwylir iddo gael ei effeithio gan lai o alw gan sectorau eraill, yn enwedig y sector modurol ac wrth i gwsmeriaid o'r UE symud at gyflenwyr eraill (Ringwald-Wildman, 2020).

Mae ansicrwydd ynghylch tollau'n bryder mawr. Mae posibilrwydd, heb gytundeb, y gallai'r UE orfodi tollau o 25%, a fyddai'n cael effaith ganlyniadol tymor hir ar y sector, gan efallai wneud rhai gweithfeydd yn anhyfyw. Hyd yn oed gyda thollau dros dro, disgwylir i gwsmeriaid symud at ddarparwyr eraill yn yr UE. Gellid ymdopi â gwiriadau wrth ffiniau, ond gallai effeithio'n negyddol ar y galw gan gwsmeriaid. Mae lleihad yn y galw eisoes yn cael ei weld mewn ymateb i'r posibilrwydd o dollau erbyn dechrau 2021. Oherwydd natur y diwydiant, byddai'n anodd cynhyrchu llai ar safleoedd fel Port Talbot gyda'r perygl y byddai'r cynnyrch yn cronni a neb i'w brynu. Mae gormod o gapasiti yn y diwydiant ac mae'r UE wedi cyflwyno mesurau atal dympio. Bydd hyn yn penderfynu prisiau'r farchnad yn y dyfodol, sy'n debygol o ostwng. Mewn ymateb i'r gor-gyflenwad hwn, gallai'r UE gyflwyno cwotâu ar ddur o'r DU yn y dyfodol (Ringwald-Wildman, 2020).

Y tu allan i'r UE mae UDA a Thwrci'n farchnadoedd pwysig ar gyfer dur. Ar hyn o bryd mae toll o 25% ar allforion i UDA a byddai'r sector yn hoffi gweld negodi hyn yn cael ei benderfynu cyn i unrhyw gytundeb FTA gael ei lofnodi. Heb gytundeb FTA gyda'r UE, gallai fod toll o 15% ar allforion i Dwrci hefyd, sydd wedi'i gysylltu i'r UE gan gytundeb undeb tollau. Byddai hynny'n gwneud dur o'r DU yn anghystadleuol yno. Oherwydd costau cludiant uchel dur, mae marchnadoedd nes at adre'n fwy proffidiol.

Llywodraeth Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i lofnodi Siarter Ddur y DU er mwyn gwneud y mwyaf o bob cyfle i gynhyrchwyr dur o'r DU drwy hyrwyddo caffael eu dur ar gyfer prosiectau mawr. Fodd bynnag, mae cyllido'n parhau i fod yn gynhennus. Oherwydd y

pandemig, gohiriwyd penderfyniadau ar gyllido Project Birch ac mae ansicrwydd o hyd ynghylch safleoedd Tata yng Nghymru.

Gallai hyrwyddo mwy ar ddefnydd domestig o ddur y DU liniaru rhywfaint yn erbyn tollau yn y dyfodol a gallai Llywodraeth Cymru gynyddu sgôp ei ffafriaeth bresennol dros gaffael dur o'r DU drwy ofyn i fusnesau ddefnyddio mwy o ddur o'r DU yn eu cadwyni cyflenwi. Byddai ystyried cynnwys dur yn strategaeth ddiwydiannol Llywodraeth Cymru a gweithio gyda'r sector i gwrdd â'r galw yn y dyfodol i fuddsoddi yn y sector cyhoeddus, er enghraifft mewn seilwaith ac amddiffyn, hefyd yn cynorthwyo'r sector. Er y gallai hyn gynyddu'r galw a chyflenwad domestig, ar ei ben ei hun nid yw'n debygol o ddisodli'r ddibyniaeth ar allforion. Bydd felly'n bwysig sicrhau nad oes unrhyw anfantais i ddur o'r DU mewn FTA yn y dyfodol.

## Twristiaeth

- Nodweddir y sector yn bennaf gan fusnesau BBaCh a bydd colli buddsoddiad uniongyrchol o'r UE yn cael effaith negyddol.
- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chynrychiolwyr o dwristiaeth ac amaeth i annog cydweithredu ar arallgyfeirio amaethyddiaeth i mewn i dwristiaeth.

Nodweddir economi dwristiaeth Cymru gan fusnesau meicro a BBaCh yn bennaf, a fawr ddim cwmnïau mawr. Mae'r diwydiant wedi'i ddosbarthu'n eang ar draws Cymru, ond yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Ychydig iawn o fanylion a ryddhawyd, ond bydd y lleihad disgwyliedig mewn cymorth wrth i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin gael ei disodli, ynghyd â cholli buddsoddiad uniongyrchol o'r UE, yn effeithio ar y sector o gofio bod nifer o feicro-fusnesau gwledig wedi derbyn cronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Mae'r sector yn awyddus i weld unrhyw gronfeydd newydd yn cael eu targedu at y busnesau hyn, fydd hefyd efallai mewn trafferthion oherwydd pandemig y Coronafeirws.

Ar hyn o bryd mae Cymru'n denu ymwelwyr undydd yn bennaf, gydag ymwelwyr tramor yn cyfrif ond am gyfran fach o ymwelwyr: rhwng Ionawr a Mehefin 2019 roedd 4.8m o ymweliadau dros nos a 37.7m o ymweliadau dydd gan breswylwyr o Brydain, a 446,00 o dripiau gan ymwelwyr tramor (Llywodraeth Cymru 2019b). At ei gilydd mae ymwelwyr tramor yn tueddu i wario mwy. Oherwydd bod nifer yr ymwelwyr tramor yn gymharol isel fel cyfran o'r holl ymwelwyr i'r DU, her allweddol i'r sector fydd parhau i hyrwyddo 'brand' Cymru fel cyrchfan unigryw yn y DU. Yn rhannol, bydd angen marchnata Cymru'n well ond gallai hefyd olygu gweithio i ddenu mwy o fewnfuddsoddiad.

Mae'r ffaith bod y sector wedi'i nodweddu'n drwm gan feicro-fusnesau, sy'n aml yn deuluol gyda nifer fach o weithwyr, yn awgrymu y bydd prinder llafur pan ddaw'r rhyddid i symud i ben yn llai o bryder yng Nghymru na mewn rhannau eraill o'r DU, er y bydd effaith o hyd i safleoedd mwy gan gynnwys gwestai. Bydd rhywfaint o hyn efallai'n cael ei liniaru yn y tymor

byr oherwydd canlyniadau economaidd pandemig y Coronafeirws, wrth i fwy o weithwyr o'r DU fod yn barod i dderbyn swyddi yn y diwydiant twristiaeth.

Disgwylir i rwystrau a gwiriadau wrth y ffin greu problemau. Mae pobl o'r UE yn aml yn hedfan ar gerdyn ID cenedlaethol yn lle pasbort ac os gwrthodir hwn wrth gyrraedd y DU yn y dyfodol, gallent ddewis mynd i rywle arall. Pan fydd llongau pleser yn docio yng Nghymru, bydd angen seilwaith ffin i hyd at 4,000 o westeion ar y tro; sydd heb ei ddarparu eto.

Bydd rheolaeth cyrchfan yn bwysig os bydd nifer yr ymwelwyr domestig yn cynyddu, yn enwedig lle mae nifer yr ymwelwyr yn rhoi pwysau ar gymunedau gwledig o gofio nad oes gan lawer ohonynt y seilwaith i ymdopi â nifer fawr o ymwelwyr. Mae'r sector yn poeni, yn sgîl y newidiadau i gymorthdaliadau fferm, y bydd nifer fawr o ffermwyr yn arallgyfeirio i dwristiaeth gan greu gor-gyflenwad a hyd yn oed cynnyrch israddol gan wneud difrod i'r brand twristiaeth yng Nghymru. Bydd angen rheoli hyn yn ofalus er bod y sector yn awyddus i weithio ochr yn ochr ag amaeth i ddatrys unrhyw broblemau. Gallai Llywodraeth Cymru hwyluso deialog rhwng grwpiau o gynrychiolwyr i sicrhau bod amcanion y ddau sector yn gydnaws yn hytrach na'n cystadlu â'i gilydd.

# Casgliadau ac argymhellion

Cawsom fod llawer o bryderon y sectorau'n gyffredin ar draws y DU, gyda rhai eithriadau nodedig. Mae awyrofod a dur yn gwneud cyfraniadau cymharol fwy i economi Cymru nag i'r DU yn gyffredinol ac felly'n sectorau pwysig mewn unrhyw gytundeb masnach. Mae gan sectorau eraill broffiliau neilltuol, fel amaethyddiaeth a physgodfeydd, lle mae'r gwahaniaeth mewn daearyddiaeth, ansawdd y pridd a chyfansoddiad y fflyd bysgota a chwotâu'n arwain at wahaniaethau cynnyrch yng Nghymru o'i gymharu â gweddill y DU.

Mae rhwystrau di-doll yn bryder a gallent gael effaith sylweddol. Bydd y rhain yn fwy o broblem i fusnesau mewn rhai sectorau nag eraill, er enghraifft mae cwmnïau amaethyddol sy'n allforio eu cynnyrch yn debygol o wynebu beichiau ychwanegol, er na wyddom beth fydd y gofynion archwilio ar gyfer cynnyrch ffres eto.

I sectorau sy'n cynhyrchu nwyddau gyda gwahanol gydrannau, fel y sectorau modurol, awyrofod a dur, bydd rhwystrau di-doll yn achosi oedi, cymhlethdodau a chostau ychwanegol. Bydd angen i fusnesau lenwi ffurflenni datgan a dangos eu bod yn cydymffurfio â safonau a rheolau tarddiad. Bydd rhai busnesau'n parhau i allu cynhyrchu nwyddau sy'n cydymffurfio â safonau'r UE ond ni fydd y safonau uwch yn cael eu cydnabod na'u hardystio oherwydd bod Llywodraeth y DU eisiau gwyro o drefn yr UE a chael ei rheoliadau ei hun. Er enghraifft, mae awyrofod yn dibynnu'n aruthrol ar strwythurau rheoliadol corff aelodaeth yr EASA, sydd i'w ddisodli maes o law wrth i'w bwerau gael eu hailwladoli i'r CAA. Ond ni

wyddom pryd fydd hyn yn digwydd ac mae’r sector yn ansicr beth fydd y trefniadau yn y cyfamser.

Bydd y problemau hyn yn cyflwyno heriau technolegol a logistaidd i borthladdoedd Cymru sy’n darparu cyswllt allweddol rhwng Iwerddon, Cymru a gweddill y DU. Caergybi yw porthladd cludiant olwynog ail fwyaf y DU a bydd unrhyw oedi, o gofio y bydd angen seilwaith gwahanol ar gyfer gwiriadau newydd, yn berygl o effeithio ar lifau masnach oherwydd ni fydd anghenion cyflenwyr sy’n dibynnu ar logisteg ‘union bryd’ yn cael eu cwrdd. Fodd bynnag, ni wyddom faint o wiriadau newydd fydd yn digwydd na faint o lwythi llong fydd yn cael eu chwifio trwodd, ac felly faint o fuddsoddiad fydd ei angen i addasu. Mae’r dryswch ynghylch effaith hirdymor protocol Gogledd Iwerddon ac o dan ba amgylchiadau fydd nwyddau’n dod i mewn i Ogledd Iwerddon drwy Ddulyn, yn gwaethygu’r ansicrwydd hwn.

Mae llai o fuddsoddiad yn bryder i’r rhan fwyaf o sectorau, naill ai’n dilyn colli cyllid Ewropeaidd neu amheuon am fuddsoddi yn y DU / Cymru yn y dyfodol. Busnesau BBaCh yn bennaf sy’n nodweddu’r sectorau amaeth a thwristiaeth a bydd angen cymorth arnynt, yn enwedig os ydynt wedi dibynnu ar arian Ewropeaidd yn y gorffennol. Gallai buddsoddi a chymorth i Ymchwil a Datblygu ac arloesi mewn sectorau fel awyrofod a dur roi manteision sylweddol i ddatgarboneiddio a datblygu ecosystemau cyflenwyr. Heb fuddsoddiad o’r fath, bydd y manteision posib hyn yn cael eu colli.

Fodd bynnag, mae cytundebau rhyngwladol yn cyflwyno rhai cyfleoedd i ddiwydiant Cymru. Bydd mynediad haws i farchnad yr UDA dod â chyfleoedd i gwmnïau Cymru, ynghyd â’r bygythiadau hysbys. Er enghraifft, gallai fod yn fanteisiol i amaeth yng Nghymru pe bai’r UDA yn gwneud i ffwrdd â rhwystrau i fewnforio cig oen o’r DU.  Lle mae gan sectorau gysylltiadau da â phartneriaid masnach y tu allan i’r UE, fel gwyddorau bywyd ac awyrofod, dylid cynnal a chryfhau’r cysylltiadau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac arbenigwyr wedi tynnu sylw’n gyson at bwysigrwydd cytuno ar fframweithiau cyffredin ar draws y DU er mwyn cytgordio safonau a rheoliadau. Awgryma’r adolygiad hwn y dylai hyn barhau i fod yn flaenoriaeth barhaus er mwyn cadw hawliau’r Senedd a Llywodraeth Cymru i reoli gweithgarwch economaidd yng Nghymru.

Dylid hefyd gwneud pob ymdrech naill ai i sicrhau cytundeb masnach rhwng yr UE / DU neu roi trefniadau dros dro yn eu lle sy’n ymestyn y cyfnod pontio neu’n sicrhau pontio effeithiol. Byddai cytundeb o unrhyw fath (bron) yn well na dim cytundeb o gwbl, i sectorau fel amaeth a physgodfeydd. Mae’r Cytundeb Masnach ac Economaidd Cynhwysfawr (CETA) rhwng yr UE a Chanada wedi lleihau archwiliadau ar gynhyrchion o darddiad anifail. Mae cytundeb glanweithdra a ffytoiechydol yr UE gyda Seland Newydd wedi dileu archwiliadau ar gynhyrchion o darddiad anifail i bob pwrpas. Heb gadarnhad o’r manylion, dylai cwmnïau yng

Nghymru boeni o hyd am archwiliadau posib a dylai Llywodraeth Cymru barhau i bwyso am eglurder.

Bydd goblygiadau tymor hir i'r DU o adael yr UE a bydd y rhain ar ben goblygiadau pandemig y Coronafeirws. Mae pandemig y Coronafeirws wedi golygu bod llywodraethau'r pedair gwlad wedi cael llai o gapasiti i ddeall ac ymateb i sut berthynas fydd gan y DU gyda gwledydd eraill yn y dyfodol. Yn y tymor byr bydd cyfnod o gryn aflonyddwch, ac yn y tymor hirach bydd angen addasu'n barhaus i'r sefyllfa. Bydd pa mor dda y bydd sectorau a busnesau'n barod ac yn gallu ymateb yn greiddiol i'w llwyddiant a'u goroesiad.

Mewn ymateb i'r ffactorau hyn, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n gweithredu'r mesurau canlynol:

- Rhoi arweiniad i fusnesau ar gymhwyso'r rheoliadau, gan gynnwys rhai ar ddefnyddio a storio data.
- Annog ailsgilio a mwy o gyflogaeth mewn cyrff cyfryngu tollau, seilwaith digidol a gwasanaethau cymorth busnes a logistaidd er mwyn cwrdd â'r cynnydd yn y galw am gymorth gan fusnesau.
- Parhau i geisio sefydlu fframwaith cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer cymwysterau a gweithdrefnau asesu cydymffurfio – fel rhan o unrhyw gytundeb masnach rydd.
- Cadw cyllid argyfwng i roi cymorth i fusnesau y bydd yr oedi wrth ffiniau'n effeithio arnynt mewn sectorau sy'n dibynnu mwy ar brosesau ffin di-dor fel amaethyddiaeth a physgodfeydd, modurol, gwyddorau bywyd ac awyrofod.
- Mapio'r llifau masnach a sut y bydd y rhain yn newid o ganlyniad i ofynion protocol Gogledd Iwerddon er mwyn nodi'r goblygiadau i'r llwybr cludiant rhwng Caergybi a Dulyn a pharodrwydd a gweithgarwch y porthladdoedd yn gyffredinol. Gallai astudiaethau achos a hanesion ategu hyn i ddangos yr union broblemau y bydd busnesau'n eu hwynebu os na fydd problemau o gwmpas tollau a rheoliadau'n cael eu datrys.

Argymhellwn fod y mesurau canlynol yn cael eu gweithredu er mwyn cynorthwyo gwydnwch economi Cymru yn y tymor canolig:

- Annog cydweithrediad rhwng cynrychiolwyr y sectorau ar arallgyfeirio gan amaethyddiaeth i dwristiaeth.
- Annog buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu ac yn y dechnoleg fydd ei hangen yn y dyfodol. Gellid defnyddio hyn i wella arloesi traws-sector mewn sectorau fel awyrofod a dur i ddatblygu ecosystemau cyflenwyr er mwyn cyfrannu at ddatgarboneiddio.

- Targedu cymorth gwladwriaethol i wneud sectorau'n fwy cystadleuol a chryfhau strategaethau caffael i hyrwyddo defnyddio nwyddau a gwasanaethau o Gymru ar draws y DU.

# Cyfeiriadau dogfennol


Ascentor. (2020). **Cutting through the confusion: Cyber security after Brexit.** Cyrchwyd o: **https://www.ascentor.co.uk/2020/02/cybersecurity-after-brexit/**

Breach, A., a Piazza, G. (2018). **London Links: What role do financial and professional services play in British cities, beyond just London?** Centre for Cities. Cyrchwyd o **https://www.centreforcities.org/publication/london-links/**

Burnap, P. (2020). **The Future of Cybersecurity in Wales.** Business News Wales. Cyrchwyd o: **https://businessnewswales.com/the-future-of-cybersecurity-in-wales/**

Carpenter, G. (2018). **Goblygiadau Brexit i gyfleoedd pysgota yng Nghymru**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: **https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/goblygiadau-brexit-i-gyfleoedd-pysgota-yng-nghymru/**

Carpenter, G. (2020). **Opsiynau polisi ar gyfer cyfleoedd pysgota yng Nghymru**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: **https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/opsiynau-polisi-ar-gyfer-cyfleoedd-pysgota-yng-nghymru/**

Dyma Gymru. (2020). **Tudalen gartref Dyma Gymru.** Cyrchwyd o: **https://www.wales.com/cy**

Deloitte. (2019a). **Brexit Industry Insights: Banking**. Cyrchwyd o: **https://www2.deloitte.com/content/dam/Deloitte/uk/Documents/international-markets/deloitte-uk-brexit-industry-insights-banking-final.pdf**

Deloitte. (2019b). **Brexit Industry Insights: Professional and Business Services.** Cyrchwyd o: **https://www2.deloitte.com/content/dam/Deloitte/uk/Documents/international-markets/deloitte-uk-brexit-insights-professional-business-services.pdf**

Dougan, M., Hayward, K., Hunt, J., McEwen, N., McHarg, A. a Wincott, D. (2020). **UK Internal Market Bill, Devolution and the Union**. Canolfan Llywodraethiant Cymru, Y Ganolfan Newid Cyfansoddiadol a Y DU mewn Ewrop sy'n Newid. Cyrchwyd o: **https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0004/2468038/UK-INTERNAL-MARKET-BILL,-DEVOLUTION-AND-THE-UNION-4.pdf**

Dwyer, J. (2018). **Goblygiadau Brexit i amaethyddiaeth, ardaloedd gwledig a'r defnydd o dir yng Nghymru**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: **https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/goblygiadau-brexit-i-amaethyddiaeth-ardaloedd-gwledig-ar-defnydd-o-dir-yng-nghymru/**

Greville, R. (2020). Pwyllgor Materion Cymreig: tystiolaeth lafar. Senedd y DU. Cyrchwyd o: **https://committees.parliament.uk/oralevidence/1015/html/**

Pwyllgor Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Tŷ'r Cyffredin. (2018). **The potential impact of Brexit on the creative industries, tourism and the digital single market: Government Response to the Committee's Second Report of Session 2017—19**. Cyrchwyd o: **https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmcumeds/1141/1141.pdf**

Tŷ'r Arglwyddi. (2020). United Kingdom Internal Market Bill: Lords Non-Insistence and Amendments in Lieu. Senedd y DU. Cyrchwyd o: https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-01/0234/200234.pdf

Pwyllgor Masnach Ryngwladol. (2020). **The COVID-19 pandemic and international trade**: **First Report of Session 2019–21**. Tŷ'r Cyffredin 29 Gorffennaf 2020. Cyrchwyd o: https://publications.parliament.uk/pa/cm5801/cmselect/cmintrade/286/28602.htm

Lowe, S. (2020). **Priorities for a global Britain**. Y Ganolfan Diwygio Ewropeaidd. Cyrchwyd o: **https://www.cer.eu/publications/archive/bulletin-article/2020/priorities-global-britain**

Lowe, S. (2020b). **Five reasons why even a basic EU-UK trade deal is better than nothing**. Y Ganolfan Diwygio Ewropeaidd. Cyrchwyd o: **https://www.cer.eu/insights/five-reasons-why-even-basic-eu-uk-trade-deal-better-nothing**

Lydgate, E., Anthony, C. a Millstone, E. (2019). **Destruction of the union: too high a price to pay for a US trade agreement**. Arsyllfa Polisi Masnach y DU. Cyrchwyd o: **https://blogs.sussex.ac.uk/uktpo/publications/destruction-of-the-union-too-high-a-price-to-pay-for-a-us-trade-agreement/**

Miles, J. (2020). **A trojan horse**. Y Sefydliad Materion Cymreig. Cyrchwyd o: **https://www.iwa.wales/agenda/2020/08/a-trojan-horse/**

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020). **Geographical breakdown of the current account**. Cyrchwyd o: **https://www.ons.gov.uk/economy/nationalaccounts/balanceofpayments/datasets/9geographicalbreakdownofthecurrentaccountthepinkbook2016**

PA Media. (2020). **Government retreat on UK internal market bill ends Lords stand-off.** The Guardian, 15 Rhagfyr 2020. Cyrchwyd o: **https://www.theguardian.com/politics/2020/dec/15/government-retreat-on-uk-internal-market-bill-ends-lords-stand-off**

Ringwald-Wildman, K. (2020). Pwyllgor Materion Cymreig: tystiolaeth lafar. Senedd y DU. Cyrchwyd o: **https://committees.parliament.uk/oralevidence/1015/html/**

Roscoe, S. (2020). **The future of UK supply chains in a disrupted world**. LSE Politics and Policy. Cyrchwyd o: https://blogs.lse.ac.uk/businessreview/2020/05/19/the-future-of-uk-supply-chains-in-a-disrupted-world-brexit-and-covid-19/

Sargeant, J a Jack, M.T. (2020). **Northern Ireland protocol: agreement in the UK-EU Joint Committee**. Institute for Government. Cyrchwyd o: **https://www.instituteforgovernment.org.uk/explainers/northern-ireland-protocol-joint-committee**

Stevens, T. a O'Brien, K. (2019). **Brexit and cyber security**. Cylchgrawn RUSI 164 (3): 22-30

Pwyllgor Trafnidiaeth. (2017). **Oral evidence: Aviation and Brexit, HC 531**. Senedd y DU. Cyrchwyd o **http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/transport-committee/aviation-and-brexit/oral/72522.html**

Senedd y DU (2020). **Free trade**. Cyrchwyd o: **https://www.gov.uk/business-and-industry/free-trade**

Ward, M (2019). **Statistics on UK-EU trade**. Papur Briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, rhif 7851. Cyrchwyd o: **https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-7851/**

Wells, P. (2020). Pwyllgor Materion Cymreig: tystiolaeth lafar. Senedd y DU. Cyrchwyd o: **https://committees.parliament.uk/oralevidence/1015/html/**

Llywodraeth Cymru (2019a). **Polisi masnach ryngwladol**. Cyrchwyd o: **https://llyw.cymru/polisi-masnach-ryngwladol?_ga=2.132513166.1636085471.1607937871-558795654.1607937871**

Llywodraeth Cymru. (2019b). **Adroddiad Perfformiad Twristiaeth Cymru: Ionawr hyd at Fehefin 2019 (Saesneg yn unig).** Cyrchwyd o: **https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-11/perfformiad-twristiaeth-cymru-ionawr-i-mehefin-2019-493.pdf**

Llywodraeth Cymru (2020). **Blaenoriaethau negodi ar berthynas y DU a'r UE.** Cyrchwyd o: **https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-blaenoriaethau-negodi-ar-berthynas-y-du-ar-ue-yn-y-dyfodol?_ga=2.168661537.1636085471.1607937871-558795654.1607937871**

## Cydnabyddiaeth

Dymuna'r awduron ddiolch i'r Athro Sangeeta Khorana, Samuel Lowe a Jessica Sargeant am eu cyfraniadau. Yr awduron yn unig sy'n gyfrifol am unrhyw wall neu hepgoriad.

## Manylion yr awduron

Mae **Dr Craig Johnson** yn Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Dr Jack Price** yn Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Dr Helen Tilley** yn Uwch-Gymrawd Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
**Dr Craig Johnson**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
info@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru